
# YMA o HYD

Dafydd Iwan
trefn: A.M.Fearon




hyd – – ry'n ni y-ma o hyd – – – – Er
gwae-tha pawb a pho-peth, Er gwae-tha pawb a pho-peth, Er
gwae-tha pawb a pho-peth, ry'n ni y-ma o
12.
hyd !

# Yma O Hyd

Dafydd Iwan

1 Dwyt ti'm yn cofio Macsen
Does neb yn ei nabod o;
Mae mil a chwe chant o flynyddoedd
Yn amser rhy hir i'r co'
Pan aeth Magnus Maximus o Gymru
Yn y flwyddyn tri chant wyth tri
A'n gadael yn genedl gyfan
A heddiw—wele ni!

*Cytgan:* Ry'n ni yma o hyd! Ry'n ni yma o hyd
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Ry'n ni yma o hyd.

*(Ailadrodd)*

2 Chwythed y gwynt o'r Dwyrain
Rhued y storm o'r môr
Hollted y mellt yr wybren
A gwaedded y daran encôr
Llifed dagrau'r gwangalon
A llyfed y taeog y llawr
Er dued y fagddu o'n cwmpas
Ry'n ni'n barod am doriad y wawr!

3 Cofiwn i Facsen Wledig
Adael ein gwlad yn un darn
A bloeddiwn gerbron y gwledydd
'Byddwn yma tan Ddydd y Farn!'
Er gwaetha pob Dic Siôn Dafydd
Er gwaetha 'rhen Fagi a'i chriw
Byddwn yma hyd ddiwedd amser
A'r iaith Gymraeg yn fyw!